Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliadau Bwydydd wedi'u Rhewi'n Gyflym (Diwygiad) (Ymadael â'r UE) 2019** |
| **DYDDIAD** | **4 Chwefror 2019** |
| **GAN** | **Rebecca Evans AC, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd** |

**Rheoliadau Bwydydd wedi'u Rhewi'n Gyflym (Diwygiad) (Ymadael â'r UE) 2019**

**Cyfraith yr UE a ddargedwir sy'n cael ei diwygio**

- Rheoliad y Comisiwn (CE) Rhif 37/2005 ar y gwaith o fonitro tymereddau wrth gludo, cadw mewn warws a storio bwydydd wedi'u rhewi'n gyflym i'w bwyta gan bobl.

**Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a/neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru**
Mae'r OS ond yn gwneud un mân ddiwygiad technegol i gyfraith yr UE a ddargedwir yn uniongyrchol ac yn peidio â throsglwyddo unrhyw swyddogaethau'r Comisiwn Ewropeaidd. O ganlyniad, nid oes unrhyw effaith ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru na chymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol.

**Diben y diwygiadau**
Diben y diwygiadau yw cywiro diffygion yn neddfwriaeth yr UE a ddargedwir yn uniongyrchol sy'n deillio o'r DU yn ymadael â'r UE, yn ymwneud â'r gwaith o fonitro tymheredd wrth gludo, cadw mewn warws a storio bwydydd wedi'u rhewi'n gyflym.

Bydd y Rheoliadau'n gwneud diwygiadau technegol bach iawn dim ond er mwyn gwneud yn glir bod cyfraith yr UE a ddargedwir yn uniongyrchol yn berthnasol yn y DU yn unig (ac nid mewn Aelod-wladwriaethau'r UE). Ni fydd yn gwneud unrhyw newid sylweddol i lefel y diogelwch i iechyd pobl (neu anifeiliaid) nac i safon uchel y bwyd a bwyd anifeiliaid y mae defnyddwyr yn ei disgwyl o gynhyrchion a gynhyrchir yn ddomestig a chynhyrchion a fewnforir.

Gellir gweld yr OS a'r Memorandwm Esboniadol, sy'n nodi effaith bob diwygiad yma:
https://www.gov.uk/eu-withdrawal-act-2018-statutory-instruments/the-quick-frozen-foodstuffs-amendment-eu-exit-regulations-2019

**Pam rhoddwyd caniatâd**
Nid oes unrhyw wahaniaeth rhwng Llywodraeth Cymru/ASB Cymru a Llywodraeth y DU (ASB y DU) o ran y polisi ar gyfer y cywiriad. Felly, byddai creu Offerynnau Statudol ar wahân yng Nghymru ac yn Lloegr yn arwain at ddyblygu, a chymhlethu'r llyfr statud heb fod angen. Bydd cydsynio i OS ar gyfer y DU i gyd yn sicrhau bod un fframwaith deddfwriaethol ar draws y DU sy'n hyrwyddo eglurder a hygyrchedd yn ystod y cyfnod hwn o newid. Dan yr amgylchiadau eithriadol hyn, mae ASB Cymru/Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol bod Llywodraeth y DU yn deddfu ar ein rhan yn yr achos hwn.